

newidiadau i'r fframwaith remandio ieuenctid

Cyflwyniad

1. Pwrpas y cylchlythyr hwn yw egluro'r newidiadau i'r fframwaith remandio ieuenctid yn Neddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd (PCSC) 2022 a diwygio'r canllawiau blaenorol ar ddarpariaethau remandio ieuenctid a gyhoeddwyd yn 2012.
2. Arweiniad yn unig yw'r cylchlythyr hwn ac ni ddylid ei ystyried yn gyngor cyfreithiol. Mae canllawiau i erlynwyr ar fechnïaeth a'r fframwaith remandio ieuenctid ar gael ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron.


Darpariaethau remandio ieuenctid yn Neddf PCSC 2022

3. Prif amcan y cynigion yn Neddf PCSC 2022 yw sicrhau bod remandio yn y ddalfa bob amser yn cael ei ddefnyddio fel dewis olaf. Mae Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 yn cryfhau'r profion y mae'n rhaid i'r llysoedd eu defnyddio wrth benderfynu remandio plentyn i'r ddalfa, pan nad yw remandio yn y gymuned yn briodol.
4. Mae Deddf PCSC 2022 yn diwygio darpariaethau perthnasol Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd (LASPO) 2012 (adrannau 91-102), a elwir yma yn brofion 'LASPO'.
5. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno dyletswydd statudol i'r llysoedd ystyried lles a budd pennaf y plentyn wrth wneud ei benderfyniad (adran 91(4)(a)), Deddf LASPO 2012), yn unol ag adran 44 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933, prif nodau'r system cyfiawnder ieuenctid a'r egwyddorion yn y canllawiau dedfrydu ar gyfer plant a phobl ifanc.¹
6. Mae Deddf PCSC 2022 yn tynhau'r amod dedfrydu, a elwir hefyd yn 'brawf siawns wirioneddol', i annog cysondeb wrth wneud penderfyniadau (adran 99(3)). Mae geiriad y prawf wedi'i ddiwygio er mwyn codi'r trothwy ar gyfer remandio yn y ddalfa mewn achosion sy'n ymddangos mor ddifrifol – ar sail y ffeithiau sydd ar gael i'r llys – nes bod carcharu yn ymddangos fel pe bai'n 'debygol iawn'.
7. Bydd yr amod dedfrydu hefyd bellach yn berthnasol i'r set gyntaf a'r ail set o amodau (cyn hyn nid oedd hyn ond yn berthnasol i'r ail set o amodau). Mae'r amod dedfrydu yn adran 98(2A) wedi'i fodloni os yw'n ymddangos i'r llys ei bod yn debygol iawn y bydd y plentyn yn cael dedfryd o garchar am y drosedd y mae'n ymddangos gerbron y llys amdani o dan adran 91(1).
8. Mae Deddf PCSC 2022 yn diwygio'r ail set o amodau i sicrhau mai dim ond hanes o dorri amodau mechnïaeth neu o drosedd tra ar fechnïaeth, sy'n berthnasol yn holl amgylchiadau'r achos ac sy'n 'ddiweddac ac yn sylweddol', sy'n gallu arwain at remandio yn y ddalfa. Mae hyn er mwyn osgoi achosion unigol neu achosion llai o dorri amodau yn arwain at remandio yn y ddalfa (adran 99(5)).
9. Mae Deddf PCSC 2022 yn cryfhau'r amod angen i sicrhau, pan gaiff mechnïaeth ei gwrthod, bod y llysoedd yn remandio'r plentyn yn y gymuned oni bai nad oes modd rheoli'r risg a berir ganddo yn ddiogel yno. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r llys fod yn fodlon nad oes dim mecanwaith arall i ddelio'n ddigonol â'r risg a berir gan y plentyn yn y gymuned (adrannau 98(4) neu 99(7)).
10. Mae Deddf PCSC 2022 yn cyflwyno rhwymedigaeth statudol ar y llysoedd i gofnodi eu rhesymau dros remandio yn y ddalfa. Mae'r ddarpariaeth hon yn ei gwneud

¹ . Dedfrydu Plant a Phobl Ifanc: <https://www.sentencingcouncil.org.uk/overarching-guides/magistrates-court/item/sentencing-children-and-young-people>


yn ofynnol i'r llys ddangos eu bod wedi ystyried lles y plentyn wrth wneud eu penderfyniad. Bydd hefyd yn ategu'r rhagdybiaeth sy'n bodoli o remandio digarchar drwy sicrhau bod y llysoedd yn ystyried remandio i Lety Awdurdod Lleol fel cam cyntaf (adrannau 102(4) a 102(5)).

ATODIAD A - I blentyn fod yn gymwys i gael ei remandio i lety cadw ieuencid (achosion domestig)





A

A NAILL AI



A



Allwedd:
OCCN – y drosedd/troseddau y mae'r llys yn ei ystyried/eu hystyried yn awr
LAA – llety awdurdod lleol
YDA – llety cadw ieuencid